Rebecca Evans AC
Y Gweinidog dros Gyllid a Threfnydd
Llywodraeth Cymru

14 Ionawr 2019

Annwyl Rebecca

**Rheoliadau Hawliau Bridwyr Planhigion (Diwygio etc) (Ymadael â'r UE) 2018**

Cafodd y Cynulliad hysbysiad gennych yn unol â Rheol Sefydlog 30C mewn perthynas â Rheoliadau Hawliau Bridwyr Planhigion (Diwygio etc) (Ymadael â'r UE) 2018 (Rheoliadau PBR). Yn ein cyfarfod ar 7 Ionawr 2019, trafododd y Pwyllgor yr hysbysiad, a'r paragraff a ganlyn yn benodol:

" Mae'r rheoliadau hyn yn rhoi swyddogaethau i'r Rheolwr Hawliau Amrywogaethau Planhigion, sef swyddog a sefydlwyd gan Ddeddf Amrywogaethau Planhigion 1997 yn bennaeth ar y Swyddfa Hawliau Rhywogaethau Planhigion. Mae'r Rheolwr yn gweithredu o dan gyfarwyddyd yr Ysgrifennydd Gwladol, Gweinidogion Cymru, Gweinidogion yr Alban ac Adran Gogledd Iwerddon ar y cyd, ac fe'i penodir ganddynt hwy hefyd.

Byddai swyddogaethau a drosglwyddir i awdurdod cyhoeddus ac eithrio awdurdod datganoledig Cymreig yn golygu bod paragraff 10 o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn gymwys. Mae'n bosibl, felly, fod hynny'n ystyriaeth berthnasol yng nghyd-destun cymhwysedd y Cynulliad i ddeddfu yn y meysydd hyn yn y dyfodol."

Rydym yn siomedig iawn na roddwyd rhybudd ymlaen llaw i'r Cynulliad o fwriad Llywodraeth Cymru i ganiatáu i Lywodraeth y DU wneud y Rheoliadau PBR. Er ein

bod yn derbyn mai mater i lywodraethau, yn gyffrediol, yw is-ddeddfwriaeth, y Rheoliadau PBR, hyd y gwyddom, yw'r cyntaf o'u math - gellir crynhoi effaith y Rheoliadau fel hyn: mae Llywodraeth Cymru wedi cydsynio i Lywodraeth y DU wneud offeryn statudol o dan y weithdrefn penderfyniad negyddol sy'n cyfyngu ar gymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, heb i'r Cynulliad gael unrhyw ran yn y broses.

A allech chi felly:

- esbonio pam nad oeddech yn credu y byddai'n briodol ymgynghori â'r Cynulliad cyn rhoi cydsyniad i'r Rheoliadau PBR,
- esbonio pam na wnaeth Llywodraeth Cymru wneud y Rheoliadau PBR ei hun (o leiaf i'r graddau y maent yn effeithio ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad),
- dweud wrthym faint o ddarnau eraill o is-ddeddfwriaeth sy'n debygol o godi'r un mater, ac a fyddwch yn ymgynghori â'r Cynulliad ynghylch unrhyw is-ddeddfwriaeth debyg,
- rhoi manylion am unrhyw gytundebau sydd gennych â Llywodraeth y DU o ran cael cydsyniad yn y dyfodol o dan baragraff 10 o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Rydym hefyd yn dwyn y mater i sylw pwyllgorau amrywiol Senedd y DU, fel y Pwyllgorau a fydd yn craffu ar is-ddeddfwriaeth o'r fath yn Senedd y DU.

Yn gywir

**Mick Antoniw**
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.